Llwybr Cadfan – Dydd 1

# Tywyn i Langelynnin

Dechreuwch eich diwrnod cyntaf o Bererindod yn Eglwys Sant Cadfan, y sefydlwyd ei safle dros 1500 o flynyddoedd yn ôl gan Sant Cadfan ei hun. Ewch ymlaen ar eich taith dros fryniau a phantiau gwyrdd i dawelwch eglwys y Santes Fair a Sant Egryn, yna cewch gyfle i fwynhau awyr y môr ger eglwys arfordirol anghysbell Sant Celynnin.



## Eglwys Sant Cadfan, Tywyn i Langelynnin

Cychwynnwch ar eich taith yn Eglwys Sant Cadfan yn Nhywyn. Sefydlwyd y safle hanesyddol hwn dros 1,500 o flynyddoedd yn ôl gan Sant Cadfan, a ddaeth o Lydaw ac a sefydlodd gymuned Gristnogol gynnar yma. Mae rhannau o'r eglwys bresennol yn dyddio'n ôl i'r 12fed ganrif, ac mae'n cynnwys Carreg Cadfan o'r 9fed ganrif ac yr arysgrif arni yw’r enghraifft gynharaf o'r iaith Gymraeg sy’n hysbys.Yn y fan hon, mae eich pererindod yn dechrau. Byddwch yn cerdded dros fryniau gwyrdd hardd, gan basio eglwysi tawel fel eglwys y Santes Fair a Sant Egryn, ac yn gorffen eich diwrnod ar yr arfordir yn Eglwys Sant Celynnin.

**Lleoliadau Stampiau:** Eglwys Cadfan Sant. Eglwys Y Santes Fair ac Egryn Sant.

## Cyfarwyddiadau:

1. Wrth i chi adael yr eglwys, ewch trwy'r bwa chwith sy'n ffinio â'r fynwent a throi i'r chwith, gan ddilyn y ffordd drwy'r tai. Ewch ymlaen ar y ffordd/trac syth am ychydig dros 1km nes i chi gyrraedd yr arwyddion llwybr troed.

2. Dilynwch y llwybr chwith sy'n mynd dros y bont bren a dilynwch y ddyfrffordd nes cyrraedd y bont droed nesaf ar y dde. Ewch dros y bont a cherddwch yn syth ar draws y cae tuag at Aber Dysynni.

**Ar ôl i'r ardal hon gael ei hadennill o'r môr, daeth yn faes awyr yr Ail Ryfel Byd ac am gyfnod byr yn gae ras.**

3. Pan gyrhaeddwch ymyl y dŵr, dilynwch yr arglawdd i'r chwith i gyrraedd pont droed fetel ger ceg yr afon.

Cyfleoedd gwylio adar yn Aber Dysynni; mae'r safle hwn yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA).

4. Croeswch y bont droed fetel ac ewch ymlaen ar hyd y llwybr tarmac nes cyrraedd tro bychan i'r dde sy'n mynd â chi ar hyd ffordd fechan. Trowch i'r chwith a cherdded 340m i gyrraedd troad i'r chwith a Gwersyll Milwrol Tonfanau.



Wedi'i sefydlu ym 1937 er mwyn paratoi ar gyfer yr Ail Ryfel Byd, roedd Gwersyll Milwrol Tonfanau yn arbenigo mewn hyfforddi magnelwyr gwrthawyrennol. Gallai hyd at 1,500 o bobl gael eu lletya ar y safle hwn a helpodd y gwersyll i ddarparu swyddi i bobl leol yn yr ardal.Roedd Tonfanau yn cael ei ddefnyddio tan 1965 pan gaeodd y fyddin y safle, ond ym 1972 ailagorwyd y gwersyll i dderbyn 1,500 o ffoaduriaid o Uganda. Rhagor o wybodaeth.

5. Trowch i'r dde a cherdded ar hyd y ffordd am 1310m, gan fynd heibio'r chwarel ac adeiladau fferm ac o amgylch y penrhyn at arwydd llwybr ceffylau a llwybr ar y chwith. Dilynwch y llwybr ceffylau hwn, gyda'r wal ar y dde a heibio'r tai a'r coed tal nes i chi weld y giât ar ymyl y cae. Cyn i chi gyrraedd y giât, dilynwch y llwybr wrth iddo arwain yn groeslinol i'r chwith ac i fyny'r bryn i gyrraedd giât droed fawr ychydig uwchben brigiad creigiog (hawdd ei gyrraedd o'r ochr chwith).

6. Ar ben y bryn i'r chwith (uwchben y chwarel) mae olion bryngaer Tal y Garreg o'r Oes Haearn.

7. Ar ôl mynd drwy'r giât, dilynwch y llwybr glaswellt sy'n arwain i ffwrdd i'r dde gan ddringo ychydig nes i chi ddod yn agos at y wal eto ar ran uchel o'r tir. Edrychwch i'r cyfeiriad arall i gyfeiriad Aber Dysynni ac fe welwch ben piler ar fryn yn y pellter, cerddwch tuag at hwn nes i chi weld bwlch yn y wal, ar y dde mae giât droed yn arwain i'r cae nesaf.

8. Ar ôl cyrraedd y cae nesaf trowch i'r dde a cherdded ychydig ar i lawr i gyrraedd canol y cae a llwybr glaswellt, trowch i'r dde a cherdded at y giât.

9. Ewch ymlaen trwy ganol y cae nesaf nes i chi gyrraedd agoriad gyda charreg fawr yn y canol. Cerddwch drwy'r bwlch ac yna i gornel dde bellaf y cae. Ewch trwy'r giât ac i lawr y lôn fferm. Cerddwch rhwng adeilad y stablau a'r tŷ nes i chi gyrraedd y ffordd.

10. Trowch i'r dde a cherddwch 400 metr ar y ffordd nes i chi gyrraedd yr adeilad nesaf gyda cherrig mawr ar ymyl y ffordd. Yna mae giât mochyn yn eich arwain i'r cae ar y chwith. Cerddwch drwy'r cae a'r giât nesaf. Anelwch at y giât ym mhen pellaf y cae hwn, cadwch at y tir creigiog uwch i osgoi'r ardaloedd corsiog.

11. Ewch trwy'r giât hon a dilynwch y ffens i'r dde (gan osgoi tir llawn dŵr) at y giât nesaf yn arwain i'r cae ar y dde. Tua hanner ffordd trwy'r cae hwn mae giât fechan sy'n arwain i'r goedwig.

12. Dilynwch y llwybr troed drwy'r goedwig nes i chi gyrraedd pont fechan letchwith sy'n mynd â chi i'r ffordd.

13. Croeswch y ffordd yn ofalus a cherdded tuag at y tai, gan fynd ychydig i'r chwith a cherdded i fyny'r grisiau mawr concrit sy'n arwain at lwybr troed gyda gwrych ar y ddwy ochr.

14. Dilynwch y llwybr troed hwn wrth iddo arwain trwy gyfres o giatiau bychain nes i chi gyrraedd y cae gyda nant fawr yn rhedeg trwyddo. Dilynwch y llwybr i lawr i'r goedwig a chroesi'r bont sy'n arwain at yr eglwys. Yna mae camfa garreg sy’n arwain at y fynwent ac eglwys y Santes Fair a Sant Egryn, Llanegryn.

**Mae'r eglwys yn adeilad rhestredig Gradd I ac mae’n adeilad o ddeunydd canoloesol i raddau helaeth gan gynnwys to o'r 15fed ganrif a sgrin ganoloesol ragorol a llofft croglen, a chofebion gwych i'r teuluoedd Owen ac Wynne lleol. Mae'r groglen gerfiedig yn cael ei hystyried yn un o'r enghreifftiau gorau yng Nghymru. Mae yna stori ei bod wedi dod o Abaty Cymer ar ôl Diddymiad y Mynachlogydd, ond nid yw hyn wedi'i brofi.** [Rhagor o wybodaeth]

15. O'r eglwys dychwelwch at y bont gan groesi'r nant yn y goedwig a dilyn y llwybr i fyny ac i'r dde. Ewch trwy'r giât i'r cae a cherddwch i'r gornel dde bellaf ac i mewn i'r cae nesaf.

16. Dilynwch y lôn fferm trwy'r cae hwn tuag at adeiladau'r fferm. Cerddwch i fyny trwy ganol y fferm at y tŷ yn y pen uchaf a dilynwch y lôn sy'n arwain i'r chwith. Ewch trwy'r

giât fechan a chadw'r ffens, yna’r wal ar y dde. Ewch ymlaen yn syth a thros y camfeydd dilynol.

17. Ewch dros y gamfa a'r bont fechan a chadwch y wal ar y chwith nes i chi gyrraedd y gamfa garreg ym mhen pellaf y caeau. Ym mhen pellaf y cae nesaf mae camfa garreg arall. Ymunwch â’r lôn fferm a'i dilyn i lawr i'r ffordd.

18. Trowch i'r dde a dilynwch y ffordd i’w phen (trac yw'r rhan olaf) 550 metr ac yna dilynwch y llwybr troed ychydig i’r chwith i'r cae. Dilynwch y trac i'r dde i lawr at y tŷ a ffynnon yn y pen pellaf. Dilynwch y llwybr troed sy'n arwain o amgylch y tŷ a cherdded ar draws y cae i'r twmpath mawr o gerrig.

19. O'r fan hon wynebwch y gogledd a cherddwch ar draws y cae gan gerdded tuag at y môr nes i chi weld camfa arall wedi'i chuddio gan lwyni eithin. Mae’r llwybr nawr yn eich arwain i lawr i eglwys Sant Celynnin, mae'n ddisgyniad/esgyniad serth ac mae rhan ohono yn mynd ar hyd ffordd brysur felly **byddwch yn ymwybodol iawn o draffig – cynghorir i chi gymryd gofal.**

20. Ewch dros y gamfa a cherdded igam-ogam i lawr y llwybr serth, garw nes i chi gyrraedd y ffordd. Cynghorir i chi gymryd gofal ar y ffordd gul brysur hon. Trowch i'r chwith a cherddwch 250 metr nes i chi gyrraedd yr adeiladau ar y dde, yr isaf ohonynt yw eglwys Sant Celynnin.

▣ Mae'r eglwys yn adeilad rhestredig Gradd I, ac mae wedi cadw llawer o'i chymeriad canoloesol, ar ôl cael dim ond ychydig o waith adfer yn y 19eg/20fed ganrif. Darganfuwyd murluniau o'r 17eg ganrif yn 2003, gan gynnwys testunau a ffigwr ysgerbydol memento mori. Mae casgliad sydd bron yn gyflawn o feinciau yn dyddio o tua 1823. Mae'r rhain nid yn unig yn cofnodi enwau a chyfeiriadau trigolion a oedd yn berchen arnynt ond yn cynnwys hierarchaeth gymdeithasol gyflawn o'r ficer a'r boneddigion i'r gweision, gan roi cipolwg diddorol ar hanes cymdeithasol lleol y 19eg ganrif. [Rhagor o wybodaeth.]

